**SWYDD-DDISGRIFIAD A MANYLION AM YR UNIGOLYN**

**TEITL Y SWYDD:** **Rheolwr Cyflawni Rhaglenni – Digidol, Cwsmeriaid a Gwytnwch Cymunedol**

**PORTFFOLIO:** **Rhaglenni Strategol**

**YN ATEBOL I'R:** **Prif Swyddog Newid Sefydliadol**

**Pwrpas y swydd**

Rheoli rhaglenni ac arwain ar gyflawni'r strategaethau Digidol a Chwsmeriaid a rhaglenni Gwytnwch Cymunedol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus yn unol â chyllidebau y cytunwyd arnynt, terfynau amser a chanlyniadau y dymunir eu cael.

**Prif gyfrifoldebau**

Datblygu Cynlluniau Cyflawni Prosiectau manwl (sy'n ymdrin â chyllid, terfynau amser a chanlyniadau) ar gyfer y ddwy raglen sy'n deillio o'r Strategaeth Ddigidol, Strategaeth Cwsmeriaid a'r Fframwaith Gwytnwch Cymunedol.

Arwain, hwyluso a hyrwyddo newid i raglenni a mentrau o fewn y sefydliad gan sicrhau ymrwymiad a gallu staff, partneriaid a'r gymuned i ddatblygu a darparu gwasanaethau gwahanol a rhagorol.

Cysylltu â meysydd gwasanaeth portffolios ar draws y Cyngor a phartneriaid allanol yn rheolaidd i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni'n unol â Chynlluniau Cyflawni Prosiectau a bod adroddiadau'n cael eu llunio arnynt.

Amlygu meysydd penodol o bryder/risg neu lle gellir gwneud camgymeriadau a chymryd camau adfer angenrheidiol i gyflawni prosiectau yn unol â Chynlluniau Cyflawni Prosiectau. Cynghori ar effeithiau posib' yr holl gamau a argymhellir. Cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd i Fyrddau Rhaglenni'r Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Datblygu a chynnal prosesau a systemau priodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol h.y. bod prosiectau'n cael eu cyflawni ar amser, o fewn cyllidebau a'u bod yn darparu'r canlyniadau a ddymunir.

Monitro ac adolygu ymgynghorwyr arbenigol allanol sydd efallai yn darparu cymorth ar gyfer prosiectau penodol, gwerthuso dewisiadau a darparu data i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus.

Pan fo angen, cyflwyno adroddiadau yng nghyfarfodydd y Cyngor a darparu diweddariadau ar gynnydd gan nodi risgiau a phroblemau, ynghyd â chyfarfodydd Craffu a'r Cabinet.

Sefydlu a chynnal perthynas waith gref gyda Gwasanaethau, Partneriaid a'u Rheolwyr a'u Timau ac eraill sy'n gweithio yn y meysydd strategol hyn.

Arwain meysydd cyflawni allweddol gan gynnwys llunio prosesau busnes a chwmpasu newidiadau allweddol eraill i sicrhau bod pob rhaglen yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus.

**Dimensiynau**

**Pobl**
Eich Rheolwr Atebol a'r person y byddwch yn adrodd wrthynt ar weithredu o ddydd i ddydd yw'r Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol). Mae atebolrwydd strategol i Brif Swyddog pob prosiect.

Mae'r Rheolwr Rhaglenni'n gweithio gyda Chydlynwyr Prosiectau ar y tair rhaglen.

Mae deiliad y swydd yn cefnogi ac yn goruchwylio swyddogion prosiectau penodedig i gyflawni prosiectau gan ddefnyddio dull rheoli sy'n cynnwys arweinyddiaeth, cyfarwyddyd, rheoli perfformiad a mentora.

**Trefniadaeth**

Yn bennaf gyfrifol am ddatblygu 3 o raglenni mawr y Cyngor: y Strategaeth Ddigidol, Strategaeth Cwsmeriaid a Gwytnwch Cymunedol (sydd hefyd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus), gan adrodd yn uniongyrchol wrth aelodau tîm Prif Swyddog y Cyngor a thrwy fyrddau Cyngor ffurfiol y Rhaglenni hyn, yn ogystal ag i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Addysg**

Addysg hyd at lefel gradd neu gyfwerth neu gymhwyster lefel uwch perthnasol gyda phrofiad sylweddol y gellir ei brofi a gwybodaeth am reoli a gweithredu prosiectau newid traws-asiantaethol.

**Profiad**

- Profiad wedi'i brofi o arweinyddiaeth drawsffurfiol a dylunio, cynllunio a chefnogi gweithredu modelau gwasanaeth newydd
- Profiad a dealltwriaeth wedi'u profi o arweinyddiaeth ddigidol, dinasyddion digidol, technoleg ddigidol a sut y gellir defnyddio'r rhain i wella gwasanaethau i gwsmeriaid a lleihau'r galw gan gwsmeriaid
- Profiad a dealltwriaeth wedi'u profi o weithio gyda chymunedau i wella eu sgiliau, eu gallu a'u gwytnwch
- Hanes profedig o weithio mewn amgylchedd o ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r gallu i ddylanwadu ar, trafod a gweithio ar draws ffiniau'n briodol
- Dealltwriaeth drylwyr o faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud model gwasanaeth newydd yn gynaliadwy
- Dealltwriaeth o waith y sector cyhoeddus, gan gynnwys blaenoriaethau a pholisïau'r llywodraeth
- Profiad o reoli adnoddau (pobl, cyllid, adnoddau diriaethol)
- Profiad o weithio'n uniongyrchol gydag Aelodau Etholedig, gan ddarparu cyngor ac arbenigedd proffesiynol o ansawdd uchel
- Profiad helaeth o rheoli prosiectau a rhaglenni

**Sgiliau**

- Sgiliau arweinyddiaeth ddigidol
- Sgiliau cynllunio a datblygu cymunedol
- Sgiliau dadansoddi da
- Ymagwedd ragorol tuag at ddatrys problemau a meddwl trwy systemau
- Gallu dysgu gwybodaeth gymhleth a'i defnyddio'n effeithiol
- Lefel uchel o sgil a gallu ym mhob agwedd ar reoli, cynllunio a threfnu rhaglenni; rheoli o fewn terfynau amser tynn, o fewn cyfyngiadau cyllidebol a darparu gwasanaethau mewn modd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar bob lefel a phrofiad o ysgrifennu adroddiadau, polisïau, gweithdrefnau, ymchwilio i wybodaeth a sgiliau cyflwyno

- Gallu gweithio ar draws strwythurau sefydliadol
- Gallu deall gwybodaeth rifol gymhleth
- Sgiliau TGCh da
- Sgiliau rhyngbersonol ardderchog
- Byddai gallu siarad a darllen Cymraeg hyd at isafswm o Lefel 1 (fel mae wedi'i diffinio yng Nghanllaw Hunanasesu Sgiliau Cymraeg Cyngor Sir y Fflint) yn ddymunol.

**Perthnasoedd**

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Partneriaid yn y Sector Cyhoeddus
- Ymgynghorwyr
- Contractwyr
- Asiantaethau/Cyrff y Llywodraeth a rhai Ewropeaidd
- Y Cyhoedd – unigolion neu grwpiau
- Y Sector Gwirfoddol
- Grwpiau Cymunedol
- Mentrau Masnachol
- Cyrff Proffesiynol

**Meddwl/Herio/Gofynion Meddyliol**

Gallu i ddatrys problemau cymhleth a meddwl yn arloesol.

Mae pwysau mawr yn y swydd hon o sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio’n rheoleiddiol/statudol bob amser. Yr her yw dod o hyd i atebion sy'n cydymffurfio â meini prawf cyfreithiol ac amgylcheddol wrth gynnal cyllidebau, adnoddau a therfynau amser.

Darparu atebion rhagweithiol sydd un cam ar y blaen i amgylcheddau sy’n newid yn gyson.

Datblygu atebion a syniadau arloesol ynghlwm â’r Strategaeth Ddigidol, Strategaeth Cwsmeriaid a'r fframwaith Gwytnwch Cymunedol, gan greu lle i sicrhau bod syniadau’n cael eu darparu fel allbynnau ymarferol.

**Meysydd eraill**

- Creadigrwydd ac arloesi - angen meddwl yn greadigol ac yn llawn dychymyg i ddatblygu a rheoli rhaglenni sy’n bodloni'r amcanion angenrheidiol ac uchelgais y strategaethau cyfredol.
- Cysylltiadau a pherthnasoedd - angen ffurfio perthynas adeiladol gydag ystod eang o bartneriaid a budd-ddeiliaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector lle bo hynny'n berthnasol.
- Penderfyniadau a disgresiwn - angen gwneud argymhellion cynhwysfawr ynglŷn â rheoli rhaglenni, gan gynnwys rheolaeth ariannol a rheoli prosiectau.
- Penderfyniadau a goblygiadau - angen rheoli sefyllfaoedd a allai gael effaith ariannol sylweddol neu effaith sylweddol ar enw da'r awdurdod.
- Gofynion gwaith - bydd angen arwain a rheoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a chyfyngiadau ar adnoddau ar draws ystod amrywiol/gymhleth o brosiectau.
- Gofynion corfforol - angen sgiliau a gwybodaeth i fanteisio ar fuddion TGCh yn llawn i ddarparu gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth a dulliau o weithio'n hyblyg/symudol.
- Amodau gwaith - angen ymdrin â gofynion a phwysau sylweddol sy’n ymwneud â rheoli rhaglenni a blaenoriaethu llif gwaith.